# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**IONAWR 2017**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG (Manyleb Newydd)**
**HAEN UWCH - UNED 1**

**3010NA0-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2017. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**Yr Hen Fflat** gan Myrddin ap Dafydd a **Tai Unnos** gan Iwan Llwyd

## Cymharu

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r ddwy gerdd yn cyfeirio at lefydd sy'n gallu cynnig cysur, sef y fflat fel yr oedd, a'r tŷ unnos. Ond hefyd cawn olwg ar lefydd gwaeth, sef y fflat wedi cael ei esgeuluso, a'r llefydd y mae pobl ddigartref heddiw yn gorfod byw ynddyn nhw.

- Mae 'Yr Hen Fflat' yn agor gyda disgrifiadau hyfryd yn cynnig gobaith. Ond mae 'Tai Unnos' o'r dechrau yn cyfeirio mwy at galedi bywyd, gyda'r gair agoriadol, 'sbwriel'.

- Down i weld y caledi yn 'Yr Hen Fflat' yn nes ymlaen pan mae pobl wedi 'esgeuluso'r lle ers tro'. Nid 'lle' sydd wedi cael ei esgeuluso yw 'Tai Unnos' ond pobl.

- Efallai fod y gerdd 'Yr Hen Fflat' yn fwy personol i'r bardd gan ei fod yn dweud ei fod wedi bod yn byw yno yn y gorffennol. Ar y llaw arall, mae Iwan Llwyd yn cynnig golwg gyffredinol i ni ar broblem y digartref. Cerdd i'r unigolyn yw cerdd Myrddin ap Dafydd, ond cerdd i nifer o bobl yw cerdd Iwan Llwyd.

- Mae dau fath o basio'n digwydd yn y cerddi. Yn 'Yr Hen Fflat', mae'r bardd yn pasio'r hen le. Cawn yr awgrym felly nad yw'n gallu colli gafael yn llwyr, a'i fod eisiau gweld ei hen gartref.

- Nid pasio lle sy'n digwydd yng ngherdd Iwan Llwyd ond pasio pobl. Mae'r bobl hyn bron yn anweledig i ni, Maen nhw 'dan bontydd ffyrdd osgoi' ac 'mewn swyddfeydd gweigion', a ninnau yn eu pasio felly heb sylwi arnyn nhw neu'n eu gweld gan ddewis peidio â sylwi arnyn nhw.

- Mae'r sêr yn bwysig yn y ddwy gerdd. Yn 'Yr Hen Fflat' roedden nhw'n arfer cynnig gobaith, ond yn 'Tai Unnos', atgoffa'r digartref nad oes to uwch eu pennau maen nhw.

- Gellid dadlau bod y ddwy gerdd yn gorffen yn obeithiol. Mae Myrddin ap Dafydd yn rhoi awgrym fod yna fywyd i'r hen le wedi'r cwbl, ac a yw Iwan Llwyd yn gweld gobaith fod yna drefn mewn anhrefn, fod y digartref yn defnyddio sbwriel i greu rhywbeth sy'n cynnig rhyw fath o gysur o leiaf?

- Mae'r thema 'Cartref' yn amlwg yn y ddwy gerdd. Ceisio creu cartref a gawn yn 'Tai Unnos', tra mai ofni colli gafael ar gartref a gawn yn 'Yr Hen Fflat'.



Ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Tai Unnos**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Cawn olwg ar ddau fath o dŷ yn y gerdd hon. Un math a adeiladwyd yn yr oes o'r blaen i gartrefu pobl dlawd, a'r math arall sy'n cael ei adeiladu yn ein dyddiau ni i'r un pwrpas.

- Darlun o'r gorffennol a gawn ar y dechrau gyda disgrifiadau o'r deunydd crai roedd yr hen bobl yn arfer eu defnyddio.

- Mae'r trosiad 'cŷn a morthwyl y rhewlif', yn ogystal ag yn rhoi darlun o'r graig yn cael ei thorri, hefyd yn awgrym o ba mor galed oedd y gwaith o osod y tŷ at ei gilydd.

- Teimlwn mai gyda'i dafod yn ei foch y defnyddia'r bardd y gair 'sbwriel' ar y dechrau, ond cawn weld ei arwyddocâd erbyn diwedd y gerdd.

- Gyda'r ailadrodd 'gosod carreg ar garreg', cawn ddarlun o ba mor ofalus y mae'r bobl yn adeiladu'r tŷ, gan ei fod yn mynd i fod yn gartref iddyn nhw am flynyddoedd i ddod.

- Mae yna ymdeimlad o falchder ar ddiwedd y rhan gyntaf wrth i'r adeiladwr '[d]roi llafur yn freuddwyd'.

- Neidiwn i'r presennol yn awr, gyda'r bardd yn rhestru'r llefydd y mae pobl ddigartref yn gwneud eu tai. Mae'r rhai hefyd yn chwilio am ddefnydd i wneud eu tai, ond 'sbwriel' go iawn i'r gweddil ohonon ni yw'r hyn y mae'r rhain yn ei ddefnyddio.

- Er mai 'bocsys carbord blêr' yn unig yw'r rhain, llawer gwannach a llai cadarn na'r 'cerrig llyfnion', maen nhw'n dal yn gartref, ac yn cynnig gwres a lloches.



© WJEC CBAC Cyf.

**Yr Hen Fflat**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae darlun gobeithiol ar ddechrau'r gerdd hon. Mae yna ymdeimlad o oleuni, boed yn olau yn y dydd neu'r nos.

- Os yw person yn adnabod yr haul mor dda, yna mae yna wres a golau ym mywyd y person hwnnw. Ac er mai tywyllwch sy'n gysylltiedig â'r nos, mae hyd yn oed y nos yn cynnig lliw i'r tŷ hwn gan fod y 'lleuad yn dod â thusw o sêr i'w ganlyn'.

- Yn y frawddeg fer ar ddechrau'r ail bennill mae'r bardd yn dweud llawer. Nid mynd i mewn i'r fflat a wna, ond ei basio. Mae'n rhaid ei fod wedi symud allan ac nad yw'n byw yno mwyach.

- Gwelwn fod y goleuni wedi mynd. Yn lle lliw'r 'tusw', dim ond düwch sydd yma bellach. Haul a lleuad oedd byd natur yn ei gynnig yn y pennill cyntaf, ond yn awr dim ond stormydd sydd.

- Cawn ddarlun trist o le nad oes neb yn edrych ar ei ôl. Cawn yr argraff fod hyn yn achosi tristwch i'r bardd.

- Mae hyd yn oed y croeso wedi plicio. Nid ydym yn gwybod enwau'r rhai sydd yno bellach. Mae 'rhywrai' yn air oeraidd sy'n awgrymu diffyg adnabod.

- Er nad yw'r un goleuni yno bellach, mae'r bardd yn dal i gofio am yr hen le fel yr oedd, ac efallai fod hyn yn cynnig gobaith i'r hen gartref wedi'r cwbl.

**Neges**

Mae negeseuon tebyg yn y ddwy gerdd:

Gallwn ni wneud rhywbeth o'n bywydau. Os ydyn ni'n derbyn pethau fel y maen nhw, yna fydd pethau ddim yn gwella.

Ni ddylen ni anghofio am y pethau pwysig mewn bywyd. Mae pob un person yn bwysig, beth bynnag yw ei stad. Mae dal gafael mewn atgofion hefyd yn bwysig, a pheidio ag anghofio'r rheiny yn ein presennol ni.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull Tai Unnos**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| | |
|---|---|
| Cododd/gosod/hawlio | berfau / berfenwau |
| sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif | rhestru |
| gosod carreg ar garreg/dynnu'r cyfan i lawr<br>troi llafur yn freuddwyd<br>sbwriel/fwthyn clyd | cyferbyniad |
| Sbwriel oes yr iâ | Trosiad |
| Llwydion/gweigion | ansoddeiriau |
| Carreg ar garreg | Ailadrodd |

**Arddull Yr Hen Fflat**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| | |
|---|---|
| nid yw haul y nos na seren y dydd | negydd/cyferbyniad |
| yr haul yn cerdded mewn | personoliad |
| tusw o sêr | trosiad |
| nid yw'r llenni wedi'u cau | negydd |
| pydru/cracio | berfenwau |
| pasiais y fflat yma ddoe | brawddeg fer |

**Mesur**

Mydr ac odl yw mesur y ddwy gerdd. Gyda mydr ac odl mae yna batrwm pendant, ac mae hyn yn awgrymu fod yna batrwm i fywyd, a bod pethau'n mynd mewn cylch. Yn 'Yr Hen Fflat', gall hyn olygu fod yna fynd a dod yn hanes y fflat, ac felly fod yna obaith ar y diwedd.

Ceisio cael patrwm i fywyd a wna'r rhai sy'n ceisio 'codi tai' yn 'Tai Unnos'. Efallai nad ydyn nhw'n llwyddo yn ôl safonau rhai, ond mae'r gorffennol a'r presennol yn y gerdd yn cynnig darlun o rai sy'n llwyddo i wneud y gorau o'r gwaethaf.



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| 31-40 | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| 21-30 | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| 11-20 | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| 0-10 | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.